

Ken Skates AC/AM
Lesley Griffiths AC/AM
Kirsty Williams AC/AM



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/KS/0356/20

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Chwefror 2020

Annwyl Mick,

Dyma roi'r newyddion diweddaraf i chi ar ein cysylltiadau rhynglywodraethol gydag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth Prydain a gyda Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Mae crynodeb o'r cyfarfodydd rhyngweinidogol diweddar wedi'u hatodi.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A – Crynodeb o gyfarfodydd rhyngweinidogol gyda Gweinidgion BEIS, a Gweinidogion o Weinyddiaethau Datganoledig arall

Ar 17 Hydref 2019 aethom i'r cyfarfod pedairochrog cyntaf un gydag Ysgrifennydd Gwladol yn Llundain. Rhoddodd y cyfarfod cyntaf gyfle i bwysu am yr angen am weithio mwy effeithlon rhwng llywodraethau ar lefel Weinidogol.

Ar 24 Hydref 2019 aeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i gyfarfod Pedairochrog ar Ynni a Newid Hinsawdd gyda Kwasi Kwarteng (Gweinidog Gwladol Ynni a Thwf Glân). Bu'r Gweinidogion yn trafod yr angen am gydweithrediad rhynglywodraethol gwell ar ynni a newid hinsawdd.

Ar 30 Hydref 2019, aeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i gyfarfod Pedairochrog Busnes a Diwydiant gyda Nadhim Zahawi AS, (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a'r Gweinidog Busnes a Diwydiant). Bu'r Gweinidogion yn trafod bod yn barod ar gyfer busnes a chymorth busnes.

Bu'r Gweinidog Addysg i ddau gyfarfod pedairochrog gyda Chris Skidmore AS, Gweinidog Gwladol Prifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesedd, ar 23 Medi 2019 a 21 Hydref 2019. Bu'r Gweinidogion yn trafod dyfodol rhaglenni ymchwil ac arloesi sy'n gweithredu ledled Cymru a'r DU.

Ar 3 Chwefror, bu Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn cyfarfod pedairochrog arall ar Ynni a Newid Hinsawdd gyda Kwasi Kwarteng AS. Roedd y cyfarfod pedairochrog hwn yn canolbwyntio ar oblygiadau Cynllun Masnachu Allyriadau y DU.